# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Dydd Mawrth, 14 Mai 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J. Tremlett

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
A. Thomas, Cyfrifydd Grŵp
L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Swyddfa Aelod y Bwrdd Gewithredol GC&I - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 2.00 - 2.15 yp**

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. Y TÂL SAFONOL AM OFAL PRESWYL GAN YR AWDURDOD LLEOL AM 2019-20

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn argymell bod y tâl safonol am gartrefi gofal preswyl yr awdurdod lleol i bobl hŷn yn cynyddu o £587.02 i £612.21 am welyau prif ffrwd ac o £800.30 i £837.50 am welyau i henoed llesg eu meddwl. Cafodd y cynnydd o 4.29% am welyau prif ffrwd a 4.65% am welyau i henoed llesg eu meddwl ei briodoli i chwyddiant, cynnydd sylweddol o ran costau staff mewn perthynas â'r Cyflog Byw Cenedlaethol, yn ogystal â diffyg arbedion effeithlonrwydd o ganlyniad i'r arbedion effeithlonrwydd sylweddol a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

**PENDERFYNWYD:**

(i) **bod y tâl safonol am gartrefi gofal preswyl yr awdurdod lleol i bobl hŷn yn cynyddu o £587.02 i £612.21 am welyau prif ffrwd ac o £800.30 i £837.50 am welyau i henoed llesg eu meddwl.**

(ii) **O ran preswylwyr y mae'r awdurdod hwn yn eu rhoi yng nghartrefi'r awdurdod lleol, dyddiad gweithredu'r cyfraddau newydd yw 1 Gorffennaf 2019. O ran y preswylwyr hynny y mae awdurdodau lleol eraill yn eu rhoi yn ein cartrefi, dyddiad gweithredu'r taliadau newydd i'r awdurdodau hynny yw 1 Gorffennaf 2019.**

## 3. COFNOD PENDERFYNIADAU - 1AF HYDREF 2018

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2018 gan ei fod yn gywir.**

________________________ ________________________
**CADEIRYDD** **DYDDIAD**